

Cynhyrchu Gwasgaredig - Cysylltu

Sut i gysylltu eich system
Cynhyrchu Gwasgaredig
â'n rhwydwaith



**SP ENERGY
NETWORKS**

Gwybodaeth amdanom ni a sut gallwn helpu gyda'ch cysylltiad

Yn SP Energy Networks, ein rôl ni yw cadw'r trydan i lifo yng Nghanolbarth a De'r Alban, Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig. Rydym hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod tai yn cael eu cysylltu â'r rhwydwaith trydan yn ddiogel ac mor gyflym â phosib.

Os ydych yn ystyried gosod generadur newydd (fel paneli solar neu dyrbinau gwynt), bydd angen eu cysylltu i'r rhwydwaith trydan naill ai drwy'r cyflenwad presennol neu drwy gysylltiad trydan newydd.

Cyn i ni allu eich cysylltu, mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr bod ein rhwydwaith presennol yn gallu darparu'r pŵer sydd ei angen arnoch i ddefnyddio eich offer.

Mae cost cysylltu â'r rhwydwaith trydan yn dibynnu ar faint a graddfa eich prosiect. Byddwn yn rhoi dyfynbris am ddim i chi.

Rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â ni yn gynnar – mae'n bwysig eich bod yn ymwybodol o'r amserlenni a'r costau cyn i chi ddechrau eich prosiect.



Dechrau arni

Rydym am wneud y broses gysylltu mor hawdd â phosib, felly mae cryn dipyn o wybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan: www.spenergynetworks.co.uk/generation
Mae gennym fideo byr hefyd i'ch helpu drwy'r broses.



Mapiau gwres

Lle da i ddechrau yw ein mapiau gwres, fydd yn rhoi dealltwriaeth well i chi o'r rhwydwaith a'r cyfleoedd cysylltu posib, cyn mynd am gynnig ffurfiol. Gallwch weld ein mapiau gwres yn:

www.spenergynetworks.co.uk/HeatMaps



Canllawiau Cysylltiad

Mae tri Canllaw Cysylltiad i Gynhyrchu Gwasgaredig ar gael ar ein gwefan, fydd yn rhoi'r holl wybodaeth angenrheidiol i chi er mwyn cysylltu eich generadur i'r rhwydwaith.

Bydd ein siart-llif syml yn eich tywys i'r Canllaw Cysylltiad sydd fwyaf perthnasol i'r math o Gynhyrchu Gwasgaredig rydych yn bwriadu ei osod.

Am fanylion pellach, ewch i:



www.spenergynetworks.co.uk/pages/understanding_the_connection_process.asp



Sut i wneud cais

Bydd ein gwefan hefyd yn cynnwys ein ffurflenni cais yn ogystal â rhai pwyntiau defnyddiol ynglŷn â sut i gwblhau'r ffurflenni hyn.

Gallwch ddod o hyd i'n ffurflenni cais yn:

www.spenergynetworks.co.uk/AppForms

Wrth gwblhau eich cais, mae'n bwysig eich bod yn darparu'r holl wybodaeth angenrheidiol, er mwyn i ni allu prosesu eich cais heb unrhyw oedi.



A fyddai sgwrs yn well?

Wrth gwrs, os byddai'n well gennych drafod eich prosiect cyn i chi gyflwyno eich cais, cysylltwch ag un o'r tîm sy'n rheoli cyfrifon, a byddan nhw'n fwy na bodlon i gynnig cyngor ac arweiniad.

Rydym wedi sicrhau bod arbenigwyr cynhyrchu gwasgaredig yn ein swyddfeydd rhanbarthol. Mae'r drws wastad ar agor, felly mae croeso i chi gysylltu.

Gellir dod o hyd i'r manylion yn:

www.spenergynetworks.co.uk/contactconnections



Cysylltu â ni

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch unrhyw bryd, bydd ein tîmau cynllunio yn fwy na hapus i helpu, a byddant yn cydweithio gyda chi i ddarparu dyfynbris cost-effeithiol. Gallwch gysylltu â'n tîm ar y manylion isod:

E-bost: gettingconnected@scottishpower.com

Canolbarth a De'r Alban:

SP Energy Networks
320 St Vincent Street, Glasgow, G2 5AD

Ffôn: 0800 389 1785

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

PO Box 290
Lister Dr, Liverpool
L13 7HJ

Ffôn: 0800 389 1783



**SP ENERGY
NETWORKS**